

# Twyn y Cryn

## Nod Llesiant

## Ffyrdd o weithio

Mae Twyn y Cryn yn goetir sy'n ffurfio rhan o Dir Comin Glascoed, ym mherchnogaeth Cyngor Cymuned Llanbadog, ac mae'n tua 160,000 metr sgwâr o goetir clychau'r gog hynafol lled-naturiol.

Mae Cyngor Cymuned Llanbadog yn cynrychioli nifer o gymunedau yn Sir Fynwy a'i nod yw darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion lleol, drwy weithredu ar lawr gwlad a galluogi pobl leol i wella eu cymunedau.

Mae Twyn y Cryn yn arbennig o bwysig i drigolion lleol Llanbadog, mae'n cael ei ystyried yn ased allweddol ac yn cael ei ddisgrifio fel mwy na llwybr cerdded, ond hefyd "ysgyfaint y pentref". Ymunodd grŵp Gofal Coetir Glascoed a'r Grŵp Pathcare â'r Cyngor Cymuned i godi proffil y coetir hwn a oedd wedi cael ei esgeuluso'n flaenorol a gweithio tuag at ei adfer a'i ddiogelu ar gyfer y dyfodol.

Mae grŵp Gofal Coetir Glascoed yn grŵp sy'n cael ei arwain gan wirfoddolwyr, ac mae wedi'i ffurfio o awydd i ddiogelu'r coetiroedd a gweld clychau'r gog a'r rhywogaethau o goed naturiol yn cael eu gwarchod. Mae grŵp Pathcare yn grŵp gwirfoddol dan arweiniad y cyngor sydd â'r nod o glirio llystyfiant oddi ar lwybrau troed cyhoeddus a thrwsio neu gyfnewid seilwaith, fel camfeydd a marcwyr canfod y ffordd.

Fel rhan o'n gwaith o dan gynllun Coetiroedd Cymunedol Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, roeddem ni'n gallu gweithio mewn partneriaeth â grwpiau Llanbadog i gefnogi'r gwaith hanfodol o ddiogelu'r safle ecolegol pwysig hwn.

Dangosodd arolwg coed a gynhaliwyd yn 2022 nifer o risgiau i'r coetir, gan gynnwys: ungnwd o ffawydd a phytophthora (cancr diferol); adfywio gwael a phori anifeiliaid. Mewn ymateb i hyn, drwy'r cynllun uchod. Fe wnaeth TrC allu darparu'r cyllid angenrheidiol i fynd i'r afael a'r risgiau hyn a datblygu rhaglen cynnal a chadw i sicrhau bod y gofal yn parhau.

> "Mae cyllid a ddarparwyd gan Trafnidiaeth Cymru wedi galluogi'r Grŵp Pathcare gwirfoddol i wneud gwelliannau sylweddol"


Geiriau allweddol: Coetiroedd Cymunedol, prosiectau sy'n cael eu hariannu gan grantiau, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, rheoli ac adfer coetiroedd, mannau gwyrdd hygyrch, ymgysylltu â'r gymuned, cenedlaethau'r dyfodol, partneriaethau, effaith gynaliadwy

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Llanbadoc Community Council

Mewn Partneriaeth â **Llywodraeth Cymru**
In Partnership with **Welsh Government**

Cronfa Treftadaeth Heritage Fund



Roedd cyfran fawr o’r gwaith yn cynnwys clirio rhedyn a mieri, a oedd wedi meddiannu llawer o lawr y goedwig, gan atal twf rhywogaethau eraill a chuddio’r llwybrau. Arweiniodd y gwaith clirio hwn at welliannau sylweddol i adfywiad naturiol y coetir, gydag ailymddangosiad y clychau’r gog sy’n rhoi ei enw i’r Glascoed, a choed yn hunan-hadu. Mae amrywiaeth o ddefnyddwyr yn hoff iawn o’r llwybr, gan gynnwys marchogion, ond roedd wedi dioddef erydiad eang oherwydd llwybrau aneglur. Drwy dynnu’r llystyfiant oedd wedi gordyfu a’i ddefnyddio i greu ymyl naturiol i’r llwybr, roedd y grwpiau’n gallu gwella profiad y defnyddiwr a diogelu’r clychau’r gog a’r goedwig gyfagos.

Er mwyn mynd i’r afael â’r risgiau i’r coetir oherwydd yr ungnwd o goed ffawydd sy’n heneiddio, aeth y grŵp coetir ati i baratoi’r tir ar draws y safle er mwyn gallu plannu cymysgedd o goed cyll, bedw arian, draenen wen, derw a draenen ddu. Bydd y cymysgedd brodorol hwn o rywogaethau yn sicrhau bod iechyd cyffredinol y coetir yn gwella, gan fod yn llai agored i glefydau endemig sy’n benodol i rywogaethau, a thrwy ddarparu amrywiaeth ehangach o gynefinoedd a ffynonellau bwyd ar gyfer ystod fwy amrywiol o anifeiliaid.

Yn ystod cam olaf y prosiect gwelwyd gwelliant sylweddol o ran hygyrchedd yn y coetir. Fe wnaeth y Grŵp Pathcare allu gosod pont droed newydd wrth fynedfa’r coetir, lle roedd cerrig camu cyn hynny dros ardal a oedd yn agored i lifogydd ac erydiad trwm.









“

Mae llwybrau wedi cael eu clirio a choed newydd wedi cael eu plannu i wella’r coetir ac annog cerddwyr i ddefnyddio’r llwybrau ac archwilio’r ardal lle maen nhw’n byw.

”